

Trwydded Safle Beiciau Hufen Iâ ar Safle Cored Radur

Cyfle Tendro



Mae'n rhaid i'r holl geisiadau ddod i law erbyn 29
Mawrth 2019 fan bellaf.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



Cyflwyniad:


Dymuna Adran Ystadau Strategol Cyngor Caerdydd wahodd cwmnïau â diddordeb i dendro ar gyfer gosod “Cert Hufen Iâ dros dro” ar safle Cored Radur yn ystod misoedd yr haf.

Cefndir:

Yn sgil datblygu Cynllun Ynni Dŵr Cored Radur, a chan gydnabod bod y llwybr beicio yno'n boblogaidd iawn, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r ardal honno elwa ar gonsesiwn hufen iâ ar gyfer defnyddwyr rheolaidd ac ymwelwyr â'r ardal.

Lleoliad:

Mae lleoliad ar gyfer y cyfle hwn eisoes wedi'i nodi ar ffurf cynllun amlinellol coch o'r ardal yn fras. Fel a welir isod.



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



Telerau Prydlesu Arfaethedig

Cyfnod:	Trwydded am gyfnod o 6 mis (o ddyddiad i'w gytuno)
Safle:	Bydd "ardal dros dro" yn cael ei hamlinellu'n goch ar y cynllun.
Rhent:	Wedi'i benderfynu trwy geisiadau tendr
Yswiriant:	Bydd y trwyddedai yn gyfrifol am gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.
Arall:	Bydd y drwydded yn destun unrhyw delerau ac amodau eraill y mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn eu hystyried yn briodol.
Costau:	Bydd y trwyddedai yn gwneud cyfraniad at ffioedd syrfewyr rhesymol y Cyngor sy'n dod i gyfanswm o £550.

Cyswllt:

Nick Fox
(Syrfëwr Graddedig)
Ffôn: 02920 872671

E-bost: Nicholas.fox@caerdydd.gov.uk



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



Rwyf i/rydym ni..... wedi darllen yr amodau gwerthu atodedig a thrwy hyn, yn amodol ar y contract, yn cynnig cyfanswm rhent am gyfnod 6 mis y drwydded o: £ (punt) ceiniog (£: p) y mis heb gynnwys TAW

Rwyf i/rydym ni yn deall wrth wneud y cynnig hwn y byddwn yn talu'r holl gostau ein hunain ac nad yw'r Cyngor dan unrhyw rwymedigaeth i dderbyn unrhyw gynnig.

Rwyf i/rydym ni'n datgan nad oes gennym unrhyw gysylltiad ag unrhyw gynllun neu gytundeb a fyddai'n golygu:

y byddaf/byddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw berson arall am y swm sy'n gysylltiedig â'r cynnig; a/neu fy mod/ein bod wedi gosod swm y cynnig ymlaen llaw yn unol â threfniant gosod prisiau.

Rwyf i/rydym ni'n derbyn bod gan y Cyngor yr hawl i ganslo'r contract ac adennill oddi wrthym unrhyw golled sy'n deillio o'r fath drefniant os canfyddir bod gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg wedi digwydd a bod hynny wedi annog y Cyngor i lunio'r contract.

Rwyf i/rydym ni yn cytuno cyn derbyn y cynnig hwn, petai amheumon yn codi mewn cysylltiad â'r swm a gynnigir, y byddai cyfle'n cael ei roi i ni esbonio'r swm neu dynnu'r cynnig yn ôl.

Rwyf i/rydym ni yn cytuno na fydd unrhyw amodau neu gyfyngiadau a ychwanegir gennym at y cynnig neu unrhyw newidiadau diawdurdod a wneir i unrhyw fanylion sy'n rhan o'r cynnig yn effeithio ar y testun gwreiddiol ond y gallai hynny arwain at wrthod y cynnig.

Rwyf i/rydym ni yn cytuno y bydd y cynnig yn parhau ar agor i'w dderbyn gan y cyngor ac na fyddwn yn ei dynnu'n ôl, am gyfnod o 28 diwrnod o'r dyddiad olaf a nodwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw hysbysiad a roddwyd mewn cysylltiad â hynny. Rwyf i/rydym ni yn cadarnhau bod hwn yn gynnig dilys.

Rwyf i/rydym ni yn cytuno i dalu ffioedd y syrfëwr o £550.00. Nid yw hwn yn gynnig rhwymedigol ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig sy'n dod i law.

Nid yw hwn yn gynnig rhwymedigol ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig sy'n dod i law.



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



Cyfeiriad	
Ffôn	
Enw	
Llofnod	
Dyddiad	
Enw'r tyst	
Llofnod y tyst	
Dyddiad	
Gwybodaeth am Gynllun Busnes (atodwch ddogfen os oes angen mwy o le arnoch)	



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL



Os yw'r Cynigydd yn "gorff" neu'n sefydliad corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu'r cyfarwyddwr awdurdodedig "neu ymddiriedolwr" lofnodi. Os yw'n bartneriaeth, dylai partner lofnodi.

Os yw'n unigolyn, dylai'r perchennog lofnodi. Ni ddylid datod y ffurflen gynnig hon a dylid dychwelyd y ddogfen gyfan yn gyflawn yn yr amlen a ddarparwyd at:

Nicholas Fox

Syrfëwr Graddedig
Ystadau Strategol, Datblygu Economaidd,
Ystafell CY6 (y Cwrt), Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd Caerdydd, CF11 5UW
Tel: 029 20872671
E-bost: Nicholas.fox@cardiff.gov.uk

Mae'n rhaid i'r holl geisiadau ddod i law erbyn dydd Gwener 29 Mawrth 2019 fan bellaf.

Mae croeso i chi hefyd fynd i wefan Ystadau Strategol yn <https://www.cardiffcouncilproperty.com/cy/>

Ymwadiad:

1. Rhoddir yr wybodaeth uchod ac sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon fel amlinelliad cyffredinol yn unig o ganllawiau ar gyfer partion â diddordeb ac ni ddylid ei hystyried yn rhan o gynnig neu gontract.
2. Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, cynllun, cyfeiriad at amod a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartion â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt.
3. Ni roddir awdurdod i unrhyw unigolyn a gyflogir gan Gyngor Caerdydd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo/tir hwn.
4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig sy'n dod i law.



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together